COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

REPORT TO: **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU LLEOEDD**

SUBJECT: **PWYLLGOR CRAFFU LLEOEDD - DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2025 DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2025**

REPORT OF:

PRESENT: M. CROSS (CADEIRYDD)

Councillors R. Leadbeater (Is-gadeirydd)
S. Behr
K. Chaplin
G. A. Davies
J. Gardner
W. Hodgins
L. Parsons
D. Rowberry
J. Millard

WITH: Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol
Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Ystadau ac Asedau Strategol
Rheolwr Gwasanaeth – Busnes ac Adfywio
Rheolwr Tîm – Datrysiadau Tai
Rheolwr Tîm – Gweithrediadau Adfywio
Swyddog Cyfathrebu a Marchnata
Swyddog Democrataidd a Chraffu

ITEM	SUBJECT	ACTION
No. 1	**CYFIEITHU AR Y PRYD** Nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

No. 2	**<u>YMDDIHEURIADAU</u>** Cafwyd yr ymddiheuriadau canlynol am absenoldeb:- Pennaeth y Gwasanaethau Cymunedol Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd	
No. 3	**<u>DATGANIADAU O FUDDIANT A GODDEFEBAU</u>** Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw ddatganiadau o fuddiant na goddefebau.	
No. 4	**<u>PWYLLGOR CRAFFU LLEOEDD</u>** Rhoddwyd ystyriaeth i benderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024. CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod cywir o'r trafodion.	
No. 5	**<u>DALEN WEITHREDU</u>** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Ddalen Weithredu. CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo.	
No. 6	**<u>Y FLAENRAGLEN WAITH: 11 MAWRTH 2025</u>** Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Craffu a Democrataidd.	

	CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac fe wnaeth newidiadau i'r pynciau a oedd wedi'u hamserlennu ar gyfer y cyfarfod ar 11 Mawrth 2025; awgrymodd unrhyw wahoddedigion ychwanegol y mae eu hangen ar y pwyllgor i ystyried yr adroddiadau'n llawn; a gofynnodd am gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r pynciau i'w trafod (Opsiwn 2).	
No. 7	**<u>CAFFAELIAD ARFAETHEDIG</u>** Cael ac ystyried yr adroddiad canlynol a oedd, ym marn y swyddog priodol, yn eitem esempt gan ystyried prawf budd y cyhoedd ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (roedd y rheswm dros y penderfyniad ar gyfer yr esemptiadau ar gael ar atodlen a gynhelir gan y swyddog priodol). - Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch prawf budd y cyhoedd sef, at ei gilydd, bod budd y cyhoedd trwy gynnal yr esemptiad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd pe datgelid yr wybodaeth ac y dylai'r adroddiad fod yn esempt. PENDERFYNWYD y dylid eithrio'r cyhoedd tra bo'r eitem fusnes hon yn cael ei thrafod gan ei bod hi'n debygol y byddai gwybodaeth yn cael ei datgelu sy'n esempt yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol. CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth am faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod a oedd yn meddu ar yr wybodaeth honno) a chymeradwyo Opsiwn 3. -	